
Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymdrin â phennu cyfrifoldebau i'r stiwardiaid, cyfarwyddo stiwardiaid a gwirio'r lleoliad cyn y digwyddiad.

Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:

1. Pennu cyfrifoldebau i stiwardiaid
2. Cyfarwyddo stiwardiaid ynghylch trefniadau ar gyfer y digwyddiadau
3. Gwirio'r lleoliad cyn y digwyddiadau

Mae'r safon hon ar gyfer uwch stiwardiaid a goruchwylwyr mewn digwyddiadau chwaraeon neu eraill a mannau poblog lle mae gwylwyr neu gynulleidfaoedd.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Pennu cyfrifoldebau i stiwardiaid

1. pennu'r nifer gofynnol o stiwardiaid gyda'r sgiliau priodol ar gyfer y man penodedig
2. pennu stiwardiaid ar gyfer **dyletswyddau a chyfrifoldebau** penodol gan ddilyn cynllun y digwyddiad
3. gofalu bod pennu stiwardiaid yn dwyn i ystyriaeth unrhyw ofynion ac arweiniad y lleoliad

Cyfarwyddo'r stiwardiaid ynghylch trefniadau ar gyfer y digwyddiadau

4. mynychu'r sesiwn gyfarwyddo am y digwyddiad er mwyn eich paratoi ar gyfer eich dyletswydd
5. derbyn yr holl **wybodaeth** anghenrheidiol er mwyn cyfarwyddo'r stiwardiaid yn eich man penodedig
6. gofalu bod adnoddau ar gael ar gyfer y sesiwn gyfarwyddo
7. cyflwyno'r prif bwyntiau i'r stiwardiaid ynghyd â'r rhesymau pam eu bod yn bwysig i'r man penodedig
8. cyflwyno manylion perthnasol i stiwardiaid yn deillio o gynlluniau wrthgefn y lleoliad gan amlygu unrhyw lefelau bygythiadau perthnasol yn ymwneud â diogelwch
9. cyfarwyddo stiwardiaid ychwanegol a'r rheiny sy'n hwyr yn unol â'r cyfarwyddyd gwreiddiol
10. gwirio dealltwriaeth y stiward o'r cyfarwyddyd
11. gwirio bod y stiwardiaid yn meddu ar y cyfarpar cywir ac wedi gwisgo'n briodol ar gyfer y digwyddiad
12. cadw cofnod o'r cyfarwyddyd yn dilyn gweithdrefnau'r digwyddiad

Gwirio'r lleoliad cyn y digwyddiadau

13. gwirio'r man penodedig yn dilyn cynllun y digwyddiad a rheoliadau'r lleoliad

-
14. gofalu caiff unrhyw risgiau, **bygythiadau a pheryglon** eu hadnabod a'u cofnodi
 15. gweithredu'n briodol o ran y risgiau, * *bygythiadau a pheryglon** a'r amgylchiadau
 16. cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau cyfundrefnol i gwblhau'r holl gofnodion

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Pennu cyfrifoldebau i stiwardiaid

1. pwysigrwydd paratoi'n drylwyr cyn y digwyddiadau a'r canlyniadau posib yn sgil peidio gwneud hynny
2. y nifer o stiwardiaid a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y man penodedig
3. pryd a sut i adrodd am y diffygion mewn nifer o stiwardiaid neu eu sgiliau yn y man penodedig
4. y proses i'w ddilyn wrth bennu stiwardiaid i gyflawni **dyletswyddau a chyfrifoldebau** penodedig
5. eich dyletswydd chi a'ch tîm pe bai angen rhoi cynlluniau wrthgefn ar waith
6. gofynion cyfreithiol a chymdrefnol yn ymwneud â diogelwch yn y lleoliad gan gynnwys gofynion y lleoliad
7. gofynion sylfaenol yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a sut mae'r rhain yn berthnasol i stiwardiaid mewn digwyddiadau

Cyfarwyddo stiwardiaid ynghylch y trefniadau ar gyfer digwyddiadau

8. pam fod angen cyfarwyddo stiwardiaid cyn y digwyddiadau
9. sut i dderbyn yr **wybodaeth** angenrheidiol
10. yr **wybodaeth** y mae angen i stiwardiaid ei wybod, gan gynnwys unrhyw anghenion unigol penodol ar gyfer y rheiny yn y digwyddiad area
11. pwysigrwydd cyfarwyddo eglur
12. sut i adnabod a mynd i'r afael gyda chamddealltwriaeth
13. y cyfarpar a gwisg anghenrheidiol ar gyfer y digwyddiad
14. proses a phwysigrwydd cofnodi

Gwirio'r lleoliad cyn y digwyddiadau

-
15. pam fod angen gwirio'r man penodedig
 16. y gweithdrefnau i gydymffurfio gyda nhw wrth wirio'r man penodedig
 17. prif nodweddion y man penodedig a'r math o **fygythiadau** gall ymddangos
 18. y mathau o weithrediadau er mwyn ymateb i **fygythiadau**
 19. sut i gwblhau'r cofnodion angenrheidiol yn ymwneud â'r canlynol:
 1. cyfarpar personol gaiff ei ddosbarthu
 2. cofnodion presenoldeb a chyfarwyddo
 3. pa gyfarpar diogelwch sydd wedi'i wirio a'i brofi

Cwmpas/Ystod

****GWYBODAETH YCHWANEGOL**** ****Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**** Mae disgwyl y bydd gan fudiadau weithdrefnau a chanllawiau i'w staff stiwardio gydymffurfio gyda nhw a fydd yn bodloni'r gofynion canlynol o leiaf: * anghenion corfforol amrywiol * anghenion diwylliannol amrywiol * anghenion ieithyddol * credoau ****Diogelwch, Amddiffyn a Gwasanaeth**** Mae disgwyl caiff yr holl wasanaethau mewn digwyddiadau gyda gwylwyr ac mewn mannau poblog eu cyflawni yn unol â'r mesurau isod: Mesurau diogelwch: unrhyw fesur caiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ddiogelu iechyd a lles yr holl grwpiau cleient sy'n mynychu, neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau. Mesurau amddiffyn: unrhyw fesur caiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o atal, lleihau'r risg a/neu ymateb i unrhyw weithgareddau troseddol neu anghyfreithlon neu aflonyddwch yn gysylltiedig â'r digwyddiadau. Mesurau gwasanaeth: unrhyw fesur caiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ofalu bod yr holl grwpiau cleient yn teimlo'n gyfforddus, wedi'u gwerthfawrogi a bod croeso iddyn nhw pan maen nhw'n mynychu digwyddiadau. ****Lefelau Bygythiadau Terfysgaeth ym Mhrydain**** Mae disgwyl bod uwch stiwardiaid, swyddogion diogelwch a staff tebyg sy'n meddu ar gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch ac amddiffyniaeth digwyddiadau yn gyfarwydd gyda'r lefelau bygythiadau terfysgaeth cyfredol ym Mhrydain. Mae'r lefel o fygythiad yn dynodi tebygolrwydd o ymosodiad terfysgol ym Mhrydain. Mae 5 lefel o fygythiadau: * ISEL – mae ymosodiad yn annhebygol * CYMEDROL- mae ymosodiad yn bosib ond nid ydyw'n debygol * SYLWEDDOL – mae ymosodiad yn bosib iawn * DIFRIFOL – mae ymosodiad yn debygol iawn * ARGYFYNGUS – mae disgwyl y bydd ymosodiad ar ddigwydd Caiff y lefel ei bennu gan y Cyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth a'r Gwasanaeth Diogelwch (MI5). Does gan lefelau bygythiol ddim dyddiad dod i ben ond fe allan nhw newid ar unrhyw adeg wrth i wahanol wybodaeth fod ar gael i asiantiaid diogelwch.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae disgwyl y bydd gan fudiadau weithdrefnau a chanllawiau i'w staff stiwardio gydymffurfio gyda nhw a fydd yn bodloni'r gofynion canlynol o leiaf:

- anghenion corfforol amrywiol
- anghenion diwylliannol amrywiol
- anghenion ieithyddol
- credoau

Diogelwch, Amddiffyn a Gwasanaeth

Mae disgwyl caiff yr holl wasanaethau mewn digwyddiadau gyda gwylwyr ac mewn mannau poblog eu cyflawni yn unol â'r mesurau isod:

Mesurau diogelwch: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ddiogelu iechyd a lles yr holl grwpiau cleient sy'n mynychu, neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau.

Mesurau amddiffyn: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o atal, lleihau'r risg a/neu ymateb i unrhyw weithgareddau troseddol neu anghyfreithlon

neu aflonyddwch yn gysylltiedig â'r digwyddiadau.

Mesurau gwasanaeth: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ofalu bod yr holl grwpiau cleient yn teimlo'n gyfforddus, wedi'u gwerthfawrogi a bod croeso iddyn nhw pan maen nhw'n mynychu digwyddiadau.

Lefelau Bygythiadau Terfysgaeth ym Mhrydain

Mae disgwyl bod uwch stiwardiaid, swyddogion diogelwch a staff tebyg sy'n meddu ar gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch ac amddiffyniaeth digwyddiadau yn gyfarwydd gyda'r lefelau bygythiadau terfysgaeth cyffredol ym Mhrydain.

Mae'r lefel o fygythiad yn dynodi tebygolrwydd o ymosodiad terfysgol ym Mhrydain. Mae 5 lefel o fygythiadau:

- ISEL – mae ymosodiad yn annhebygol
- CYMEDROL- mae ymosodiad yn bosib ond nid ydyw'n debygol
- SYLWEDDOL – mae ymosodiad yn bosib iawn
- DIFRIFOL – mae ymosodiad yn debygol iawn
- ARGYFYNGUS – mae disgwyl y bydd ymosodiad ar ddigwydd

Caiff y lefel ei bennu gan y Cyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth a'r Gwasanaeth Diogelwch (MI5). Does gan lefelau bygythiol ddim dyddiad dod i ben ond fe allan nhw newid ar unrhyw adeg wrth i wahanol wybodaeth fod ar gael i asiantiaid diogelwch.

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**** **Dyletswyddau a chyfrifoldebau** 1. diogelwch 2. amddiffyniaeth 3. gwasanaeth
Gwybodaeth 1. y mathau o weithgareddau a bygythiadau yn y lleoliad 2. amserlen ar gyfer y digwyddiad 3. rheoliadau'r lleoliad 4. lleoliad cyfleusterau / cyfarpar mewn argyfwng 5. gweithdrefnau cyfundrefnol a'r lleoliad 6. gweithdrefnau wrthgefn ac mewn argyfwng gan gynnwys geiriau cod a / neu negeseuon cod 7. prif dasgau stiwardio ar gyfer y man penodedig 8. gwybodaeth cyn y digwyddiad 9. proffil y dorf **Bygythiadau a pheryglon** (ymdrin ag 1 a 2 o leiaf) 1. diogelwch 2. amddiffyniaeth 3. glanweithdra 4. amgylcheddol 5. offer diffygiol 6. strwythurol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**** **Dyletswyddau a chyfrifoldebau** 1. diogelwch 2. gwasanaeth 3. amddiffyniaeth ** **
Gwybodaeth 1. mathau o weithgareddau a bygythiadau yn y lleoliad 2. amserlen y digwyddiad 3. rheoliadau'r lleoliad 4. lleoliad cyfleusterau / cyfarpar mewn argyfwng 5. gweithdrefnau cyfundrefnol a'r lleoliad 6. gweithdrefnau wrthgefn ac mewn argyfwng gan gynnwys geiriau cod 7. prif dasgau stiwardio ar gyfer y man penodedig 8. gwybodaeth cyn y digwyddiad 9. proffil y dorf ** ** **Bygythiadau a pheryglon** 1. diogelwch 2. amddiffyniaeth 3. glanweithdra 4. amgylcheddol 5. offer diffygiol 6. strwythurol

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiadau canlynol wrth wraidd cyflenwi gwasanaethau yn y sector diogelwch i wylwyr. Mae'r ymddygiadau yn sicrhau bod y mudiad a'r unigolyn yn creu argraff dda ar y cleientiaid.

Mae'n rhaid ichi ddangos eich bod yn cyflawni'r canlynol yn gyson:

1. Adnabod yr angen i fod yn hyblyg er mwyn dwyn i ystyriaeth amgylchiadau newidiol
2. Addasu cynlluniau ac ymatebion fel bo'r angen
3. Blaenoriaethu amcanion a gwaith cynllunio er mwyn manteisio ar y defnydd gorau posib o amser ac adnoddau
4. Gofalu bod amser i gefnogi eraill
5. Cymryd cyfrifoldeb personol dros weithredu rhai pethau
6. Dangos gonestrwydd, tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau
7. Cytuno'n eglur ar beth a ddisgwylir gan bobl eraill a'u hystyried nhw'n gyfrifol am herio ymddygiad cymdeithasol er enghraifft.
8. Ceisio deall disgwyliadau pobl ac unrhyw anghenion ychwanegol a medru bodloni'r rhain
9. Cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch personol
10. Cymryd balchder mewn cynnig gwasanaeth o safon
11. Ymdrechu i fod yn wiliadwrus rhag bygythiadau a pheryglon posib
12. Annog a chefnogi eraill i fanteisio i'r eithaf ar eu galluoedd.
13. Defnyddio ystod o ddulliau arwain sy'n briodol i wahanol bobl a sefyllfaoedd
14. Eirioli dros ddiogelwch a lles fel blaenoriaeth wrth gynllunio a rheoli digwyddiadau
15. Cymryd balchder yn eich edrychiad a chydymffurfio gydag unrhyw godau gwisg gan y mudiad neu leoliad
16. Cydymffurfio gyda chod ymddygiad y lleoliad
17. Dangos eich gallu i gynnal cyfrinachedd
18. Dangos ymwybyddiaeth o faterion diogelu
19. Dangos dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol sylfaenol yn ymwneud ag amrywioldeb a diogelwch

Sgiliau

Dyma restr o'r prif sgiliau a nodweddion cyffredinol sydd eu hangen er mwyn gofalu am ddiogelwch gwylwyr

1. Gwrando a gweithredu
2. Cyfathrebu geiriol ac aneiriol effeithiol
3. Dylanwadu ar ac argyhoeddi eraill
4. Dirprwyo

5. Diplomyddiaeth

6. Empathi
7. Rhoi grym i eraill
8. Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau
9. Arwain drwy esiampl
10. Gwydnwch
11. Rheoli ymddygiad heriol
12. Mentora
13. Ysgogi eraill
14. Trafod a chyfaddawdu
15. Derbyn a chynnig adborth
16. Cynllunio a gwerthuso
17. Gwerthfawrogi a chefnogi eraill

Cysylltiadau â SGC eraill

SKASS3, SKASS4, SKASS5, SKASS8, SKASS9

SKASS7

Paratoi stiwardiaid a lleoliadau ar gyfer digwyddiadau i wylwyr



Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	31 Maw 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKASS7
Galwedigaethau perthnasol	Uwch Stiward
Cyfres/Set	Diogel wch Gwylwyr
Geiriau Allweddol	stiwardiaid, digwyddiadau, gwylwyr, lleoliadau, torf, cynulleidfa